

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

MARCHNAD BAE COLWYN / LLANRWST - Amodau Gweithredu

1. Bydd yr holl fasnachwyr sy'n gweithredu o fewn ffiniau marchnadoedd Bae Colwyn / Llanrwst yn gweithredu fel masnachwyr achlysurol ym mhob diwrnod marchnad; ni fydd unrhyw leiniau parhaol ar gael (Lle bo'n bosibl, ac i ddarparu cyfleoedd busnes cynaliadwy a chynorthwyo hyder y defnyddwyr, bydd masnachwyr rheolaidd yn cael yr un lleoliad neu lleoliad tebyg).
2. Wrth ddyrannu lleiniau, byddwn yn ystyried y math o fasnach a lles y farchnad. Os yw math arbennig o fasnach yn rhagori a hynny ar draul y farchnad, ni fydd unrhyw fathau tebyg eraill o fasnach yn cael eu caniatáu yn y farchnad.
3. Ni fydd unrhyw Stondin Marchnad yn fwy na 10 metr o hyd, ac ni fydd dyfnder o fwy na 3 metr, heb ganiatâd y Swyddog Awdurdodedig.
4. Rhaid i fasnachwyr ddefnyddio'r gofod stondin gydag agwedd busnes a pheidio caniatáu i unrhyw beth gael ei wneud a allai, ym marn Swyddog Awdurdodedig, achosi niwsans i'r cyhoedd, deiliaid stondinau cyfagos neu a allai fod yn niweidiol i'r farchnad.
5. Ni chaiff masnachwyr godi unrhyw stondinau na gosod unrhyw nwyddau neu offer ar y gofod stondin neu unrhyw ran o'r farchnad, y diwrnod cyn y diwrnod marchnad neu cyn 06.00 ar ddiwrnod y farchnad.
6. Mae'n rhaid i'r holl stondinau roi'r gorau i fasnachu erbyn 17.00 ac mae'n rhaid i bob cerbyd stondin, deunyddiau a gwastraff ayyb gael eu symud o'r farchnad yn syth wedyn.
7. Ni chaiff unrhyw lorïau, faniau, ceir, cerbydau modur na cherbydau tebyg, heblaw'r rhai a ganiateir yn benodol (adwerthwyr bwyd/arlwyo/peiriannau at ddibenion gwasanaeth) aros yn y farchnad ar unrhyw adeg, ac mae'n rhaid dadlwytho bob cerbyd yn syth cyn cychwyn busnes a'u symud o ardal y farchnad, gan gynnwys llwybrau mynediad cyn 08.45 a dim dychwelyd tan 16.00. (Yn ôl disgrisiwn swyddog awdurdodedig gall fod eithriad i'r rheol hon mewn tywydd garw neu mewn argyfwng).
8. Rhaid i fasnachwyr diffodd injan unrhyw gerbyd tra'n dadlwytho neu'n llwytho nwyddau i'r farchnad a sicrhau bod unrhyw ollyngiadau tanwydd neu iraid yn cael eu symud a'u glanhau cyn gynted ag y bo'n ymarferol, (y masnachwr fydd yn gyfrifol am unrhyw daliadau glanhau dilynol).
9. Ni ddylai masnachwyr ganiatáu chwarae radio, uchelseinydd neu offer clywedol arall cyn 09.00, o unrhyw stondin neu gerbyd neu fel arall o fewn yr ardal marchnad.
10. Mae'n rhaid i fasnachwyr ddangos tystiolaeth o bwy ydynt i'r Swyddog Datblygu Marchnad neu unrhyw Swyddog Awdurdodedig os gofynnir iddo/iddi wneud hynny, yn ogystal â thystiolaeth o bwy yw unrhyw berson a gyflogir ganddo/ganddi yn y Farchnad.
11. Mae'n rhaid i'r masnachwr bob amser ei yswirio ei hun ac unrhyw berson arall a gyflogir ganddo yn y farchnad yn erbyn atebolrwydd i'r cyhoedd ac unrhyw atebolrwydd y gellir ei ragweld yn rhesymol wrth iddo fasnachu, am isafswm o £2,000,000 neu ffigwr uwch a bennir o bryd i'w gilydd dan bolisi bloc y Ffederasiwn Masnachwyr Marchnad a chyflwyno Tystysgrif Yswiriant, neu yn achos y Ffederasiwn Masnachwyr Marchnad Cenedlaethol, Cerdyn Aelodaeth, cyn y gellir rhoi safle stondin.

12. Mae'n rhaid i fasnachwyr gadw at yr holl statudau ac is-ddeddfau a rheoliadau sy'n berthnasol i'r farchnad.
13. Mae'n rhaid i fasnachwyr ganiatáu i Swyddog Awdurdodedig neu weithwyr y Cyngor archwilio cyflwr unrhyw stondin a godir yn y gofod stondin a gwneud unrhyw waith trwsio sy'n ofynnol gan y Cyngor.
14. Ni chaiff masnachwyr arddangos na storio nwyddau y tu allan i'r llinellau sy'n dangos terfynau allanol y stondin, na chaniatáu i unrhyw ran o'r stondin a godir ymwithio y tu allan i ffin y stondin.
15. Ni ddylai masnachwyr achosi unrhyw ddifrod bwriadol i eiddo'r Cyngor ac mae'n rhaid ad-dalu cost trwsio neu adnewyddu unrhyw ddifrod a achosir gan y masnachwr neu ei weithwyr i'r Cyngor.
16. Ni ddylai masnachwyr ddenu pobl trwy gynnig neu werthu nwyddau â llaw trwy eu dyrchafu eu hunain ar blatfform neu ar unrhyw beth a godir uwchlaw lefel llawr y Farchnad neu trwy ddefnyddio dulliau clywedol neu fecanyddol oni bai yr awdurdodir hynny gan Swyddog Datblygu'r Farchnad (gellir rhoi awdurdodiad o'r fath yn amodol ar amodau penodol).
17. Gwaherddir masnachwyr rhag cynnig gwerthu unrhyw fath o anifail byw.
18. Gwaherddir masnachwyr rhag cynnig gwerthu arfau peryglus, gan gynnwys catapyltiau nad ydynt yn rhai pysgota, gynnuau BB, cleddyfau, a chyllyll fflic, ymladd neu daflu.
19. Gwaherddir masnachwyr rhag cynnig gwerthu neu roi gwasanaeth aciwbigo, tyllu clustiau, tatŵio neu electrolysis o unrhyw stondin ym Marchnad y Cyngor.
20. Rhaid i fasnachwyr gydymffurfio â safonau statudol masnachu yn deg. Cyfeirir honiadau o fasnachu annheg i'r Adran Safonau Masnach priodol.
21. Mae'n rhaid i fasnachwyr godi sbwriel a phob gwastraff arall o ardal y stondin drwyddedig mor aml ag sy'n angenrheidiol yn ystod y diwrnod marchnad er mwyn atal sbwriel a gwastraff rhag cronni yn ardal y stondin a dylid cael gwared ar y sbwriel a'r gwastraff mewn modd priodol a chyfreithlon yn ôl cyfarwyddyd y Swyddog Datblygu Marchnad neu'r Swyddog Awdurdodedig.
22. Mae'n rhaid i fasnachwyr sicrhau bod y llwybr 4 metr yn cael ei gadw ar agor ac yn ddirwystyr yng nghanol Ffordd yr Orsaf, i ganiatáu mynediad i gerbydau brys.
23. Ni ddylai masnachwyr ddefnyddio unrhyw ddodrefn stryd, gan gynnwys seddi, gwelyau blodau, lampau stryd, coed nac unrhyw adeiledd arall yn yr ardal marchnad at ddibenion codi / diogelu stondinau.
24. Mae gwerthu unrhyw fwydydd yn y Farchnad yn amodol ar ddarpariaethau Rheoliadau Hylendid Bwyd (Marchnad, Stondinau a Cherbydau Cyflenwi) 1966 neu unrhyw ddiwygiad iddo, neu ailddeddfiad ohono. Gellir cael rhagor o wybodaeth ynglŷn â gofynion o'r fath gan adran Gorfodaeth Busnes y Gwasanaethau Rheoleiddio.
25. Ni chaiff y masnachwr hawlio yn erbyn y Cyngor am unrhyw golled, anaf neu ddifrod a gafwyd trwy dân, lladrad neu gael eu troi allan yn rymus o'r farchnad am dorri unrhyw un o'r telerau a geir yma neu am unrhyw reswm arall. Ni chaiff y masnachwr hawlio iawndal am golli ewyllys da neu fel arall ar ôl terfynu'r hawl i ardal stondin.
26. Os bydd unrhyw un o'r amodau hyn yn cael eu torri, neu os bydd unrhyw ymddygiad sy'n niweidiol i reolaeth effeithlon y farchnad, gall y Cyngor, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, ddechrau camau gorfodi ffurfiol.

27. Bydd amodau tywydd yn cael eu hasesu am 10.00 o'r gloch gan y Swyddog Datblygu Marchnad. Mewn achosion o dywydd eithafol, bydd y rhent yn cael ei leihau yn ôl disgrisiwn y swyddogion i lefel nad yw'n is na 50% o'r rhent penodedig.
28. Weithiau, bydd angen i'r cyngor ganslo dyraniad llain neu leiniau penodol, ar ddiwrnodau marchnad penodol, er mwyn caniatáu gwneud gwaith cynnal a chadw a gwaith arall mewn perthynas ag eiddo a/neu briffordd gyfagos. Mewn achosion lle nad yw safle addas wedi'i ganfod; efallai na chodir tâl ar fasnachwyr.
29. Bydd y Cyngor yn penderfynu ar unrhyw gwestiwn sy'n codi o ddehongliad yr amodau hyn/cytundeb hwn, ac mae penderfyniad y Cyngor ar unrhyw fater perthnasol yn derfynol a phendant
30. Mae'r Farchnad yn gweithredu polisi nwyddau cyfyngedig, lle bydd masnachwyr sy'n dyblygu nwyddau neu'n gwerthu nwyddau neu gynnyrch o fathau tebyg (ac eithrio dillad) yn cael eu cadw i'r lleiafswm a bydd hyn yn ôl disgrisiwn y Swyddog Datblygu Marchnad.
31. Mae'n rhaid i bob masnachwr gwblhau cais ffurfiol cyn masnachu o fewn ffiniau'r farchnad.
32. Bydd unrhyw fasnachwr sy'n cael gwrthod caniatâd i fasnachu yn y Farchnad yn cael gwybod ar lafar cyn gynted â phosibl ac yn cael cadarnhad ysgrifenedig o fewn pedwar diwrnod ar ddeg wedi'r gwrthodiad.
33. Gall yr amodau sy'n ffurfio rhan o'r ddogfen hon newid, a gellir eu hadolygu ar unrhyw adeg yn ôl disgrisiwn Rheolaeth Marchnadoedd y Gwasanaethau Datblygu Cymunedol.
34. Mae'n rhaid i fasnachwyr dalu holl ffioedd neu daliadau'r farchnad ym mhob diwrnod marchnad.